

# Croeso.

**Croeso i Gymru:**
Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020–2025.

**Eich canllaw byr.**

“Rwy’n treulio sawl penwythnos yn rhedeg llwybrau yn y mynyddoedd uwchlaw Betws-y-Coed. Caiff fy ffordd o fyw, a’n diwylliant yma yng Nghymru, eu llywio gan ein tirweddau, sy’n fwrlwm o greadigrwydd ac antur. Mae’r llwybrau rwy’n eu defnyddio yn llawn o ymwelwyr o bob cwr o’r byd — ond maent yn eiddo i’n cymuned ni hefyd, ac rydym yn rhannu’r daith gyda’n gilydd… Mae dyfodol ein diwydiant yn mynd law yn llaw â dyfodol ein cymunedau; gall yr hyn sy’n dda i ymwelwyr fod yn dda i bobl leol.”

**Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC**
Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

# Croeso.

## Dyma grynodeb o’n blaenoriaethau ar gyfer datblygu a hybu’r economi ymwelwyr yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf: mae ein syniadau wedi cael eu llywio gan eich mewnbwn. Diolch.

**Mae’r canllaw hwn yn rhoi:**

— Trosolwg o’r weledigaeth a’r cyfeiriad.
— Crynodeb o flaenoriaethau allweddol a chamau gweithredu Croeso Cymru.
— Straeon, cyfweliadau ac astudiaethau achos i’ch ysbrydoli i weithio gyda ni yn y dyfodol.

Gallwch ddarllen y cynllun yn llawn drwy fynd i:
businesswales.gov.wales/tourism/cy

# Cydweithio.

Croeso Cymru yw'r tîm o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr yng Nghymru. Ein rôl yw i gefnogi a galluogi ein partneriaid i dyfu ein sector ar gyfer y dyfodol.

**Mae'r cynllun hwn i bob un ohonom.**

**Mae'n partneriaid yn cynnwys:**

— Timau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, megis Iechyd ac Addysg.
— Sefydliadau ar lefel y DU, gan gynnwys VisitBritain.
— Sefydliadau cenedlaethol, megis Trafnidiaeth Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru.
— Awdurdodau Lleol Cymru.
— Aelodau o'n pedwar fforwm rhanbarthol.
— Sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, ym maes twristiaeth a thu hwnt.
— Ac, yn bwysicaf oll, weithredwyr a busnesau twristiaeth yn y sector preifat yng Nghymru, a ledled y byd.



# Twristiaeth heddiw.

Mae twristiaeth i Gymru mewn sefyllfa gref — ac mae cyfle i dyfu ein sector ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, oherwydd y posibilrwydd y bydd gormod o dwristiaeth mewn rhai rhannau o'r wlad ac argyfwng yr hinsawdd, rydym yn wynebu heriau newydd, ac rydych wedi dweud wrthym y bydd yn rhaid i dwf hefyd gynnal a chefnogi'r cryfderau sy'n denu pobl yma yn y lle cyntaf — ein tirweddau, ein diwylliant a'n hardaloedd lleol. Dyma'r peth iawn i'w wneud. Yn ogystal, dyma'r union beth y bydd ymwelwyr yn y dyfodol yn ei fynnu.

**Dyna'r cyfle sy'n ganolog i'n cynllun.**

# Ein cynllun.

Dyma gipolwg ar ein cynllun —
yn gryno.

**Uchelgais**

Tyfu twristiaeth er budd Cymru

**Nodau**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Twf economaidd sy'n creu... | Cynaladwyedd amgylcheddol | Cyfoeth cymdeithasol a diwylliannol | Buddiannau iechyd |

Gwrando ar drigolion, ymwelwyr a busnesau

**Dull gweithredu**

Profiadau o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn sy'n dda i ymwelwyr a chymunedau lleol

Cynhenid Gymreig — ag agwedd fyd-eang

| | |
|---|---|
| **Bro — Cymreig a lleol** | **Byd — byd-eang** |

**Arlwy craidd Cymru**

| | | |
|---|---|---|
| Tirweddau naturiol eithriadol | Diwylliant creadigol | Antur epic |

Croeso: croeso cynnes, llety unigryw a bwyd a diod lleol

Ffordd Cymru

**Amcanion y brand**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Codi ein statws | Syfrdanu ac ysbrydoli | Newid canfyddiadau | Gwneud pethau da | Bod yn gwbl Gymreig |

**Ein hymwelwyr**

| | | |
|---|---|---|
| Tymoroldeb | Gwariant | Dosbarthiad |
| Marchnadoedd gwyliau gartref newydd yn y DU | Ymwelwyr rhyngwladol — newydd i Gymru | Pobl Cymru |

**Mathau o ymwelwyr**

| | | |
|---|---|---|
| Ymwelwyr cyffredinol | Teithwyr busnes | Diddordeb arbennig |

Gweithredwyr teithio

**Blaenoriaethau allweddol Croeso Cymru**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynnyrch a lleoedd gwych** | **Profiadau o ansawdd i ymwelwyr** | **Brand arloesol i Gymru** | **Sector cysylltiedig a bywiog** |

**Blaenoriaethau masnachol**

| | | |
|---|---|---|
| Llwybrau gwell i'r farchnad | Ffocws ar brofiadau o ddiddordeb arbennig | Partneriaethau masnachol |

**Gweithredu**


| | | |
|---|---|---|
| Tîm mewnol wedi'i ailstrwythuro | Strwythurau llywodraethu diwygiedig | Cymorth busnes wedi'i symleiddio |

| | |
|---|---|
| Adolygu darpariaeth ar lefel leol | Dulliau newydd — partneriaethau |

# Uchelgais.



Ein huchelgais yw tyfu twristiaeth er budd Cymru: gan greu manteision economaidd, amgylcheddol, diwylliannol ac iechyd sy'n cyfoethogi bywydau ein hymwelwyr — a chymunedau lleol.




# Dull Gweithredu.



Yn ganolog i'n dull gweithredu mae pwyslais ar ddatblygu profiadau rhagorol o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn i ymwelwyr sy'n dda i'n gwesteion — ac i bobl leol. Profiadau sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng:

## Bro.

Sef y lleol, cymuned, ymdeimlad o ddiben a naws am le.

**Effaith leol:**

— Profiadau â naws Cymreig.
— Cymunedau cyfeillgar, croesawgar.
— Arddangos bwyd a diod Cymru.
— Cyrchfannau glân, gwyrdd.
— Ysgogi economïau a chadwyni cyflenwi lleol.
— Yn hygyrch a chynhwysol ac yn cynnig gwerth am arian.
— Ar agor drwy gydol y flwyddyn, ledled Cymru.
— Tyfu busnesau cartref.
— Dathlu'r Gymraeg.

## Byd.

Sef safonau ac uchelgais o ansawdd rhyngwladol.

**Perthnasedd rhyngwladol:**

— Brand cyrchfan uchel ei barch.
— Denu busnes rhyngwladol newydd.
— Ysgogi gwerth dros niferoedd.
— Profiadau a digwyddiadau o'r radd flaenaf.
— Cysylltiadau trafnidiaeth gwell — yn cynnwys cysylltiadau rhyngwladol â Maes Awyr Caerdydd.
— Cyrraedd safonau ansawdd rhyngwladol.
— Perthnasol, arloesol a chyfoes.
— Defnyddio data a dealltwriaeth ar gyfer penderfyniadau.
— Ymwybyddiaeth amlieithog a diwylliannol.
— Lleihau'r effaith amgylcheddol.

# Arlwy craidd Cymru.

Rydym am greu a dathlu profiadau sy'n adlewyrchu cryfderau unigryw Cymru fel gwlad, gan adeiladu ar ein themâu blynyddol diweddar.

**Erbyn 2025, rydym am i Gymru fod yn enwog am y canlynol:**

| | | |
|---|---|---|
| Tirweddau eithriadol, a ofelir amdanynt. | Cymunedau bywiog a diwylliant creadigol. | Anturiaethau a gweithgareddau epic i bawb. |
| Croeso unigryw Gymreig. | | |
| Profiadau cenedlaethol megis Ffordd Cymru. | | |



# Ein hymwelwyr.

Mae Cymru'n denu tua 11 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae cyfle o hyd i dyfu nifer cyffredinol yr ymwelwyr â Chymru ond, er mwyn datblygu mewn ffordd gynaliadwy, mae angen i ni fynd i'r afael â thair her allweddol:

**Tymoroldeb**
Tyfu twristiaeth mewn cyfnodau llai prysur.

**Gwariant**
Annog ymwelwyr i dreulio mwy o amser a gwario mwy o arian yng Nghymru.

**Dosbarthiad**
Ysbrydoli ymwelwyr i ddarganfod rhannau newydd o Gymru sy'n barod am dwristiaeth.

**Bydd ein prif ffocws ar y canlynol:**

— Marchnadoedd gwyliau gartref newydd o bob oed yng Nghymru, y DU ac Iwerddon.
— Ymwelwyr rhyngwladol sy'n newydd i Gymru ac sy'n ystyried y DU neu sydd wedi bod yn ei hystyried.
— Pobl Cymru, gan ysbrydoli hyder, ymweliadau ac eiriolaeth.
— Ymwelwyr gydol oes, gyda'r nod o sicrhau bod myfyrwyr yn dod yn ymwelwyr cyson.
— Teithwyr busnes, gan ddechrau drwy wneud mwy i ddenu Digwyddiadau Busnes i Gymru.
— Ymwelwyr a chanddynt ddiddordeb arbennig, sy'n mwynhau profiadau penodol.
— Gweithredwyr teithio sy'n pontio rhyngom a'n hymwelwyr.

"Mae gwlad harddaf Prydain yn rhagori ar ei maint bach. Ac, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi blodeuo — gyda llawer o westai bach hyfryd, lleoliadau bwyta ffyniannus a gweithgareddau mentrus — heb aberthu'r enaid a fu mor atyniadol yn y lle cyntaf."



# Mentrus.

Cerdded Ceunentydd, Rhaeadr Cynfal, Blaenau Ffestiniog



**Manteisio ar eich cryfderau.**
Mae tirwedd ac arfordir Cymru'n cynnig cyd-destun cryf ar gyfer antur. Bu llawer o fuddsoddiad yma, felly mae'r diwydiant awyr agored bellach yn hynod broffesiynol fel y gallwch weithio gydag ef a'i ddefnyddio.

**Mentrau mawr.**
Nid does diben gwneud rhywbeth ar ei hanner, felly gwnaethom benderfynu creu'r profiad masnachol cyflymaf yn y byd ar gwch antur, sef RibRide Velocity.

**Cydweithio.**
Mae gennym gyfeillgarwch mawr â'r criw sy'n gweithredu Zip World. Datblygodd Sean Taylor y weiren wib gyflymaf yn y byd. Felly, er mwyn datblygu atyniad mwy cydlynus i Ogledd Cymru, gwnaethom ofyn am ganiatâd Sean i ddefnyddio'r gair 'Velocity' a chytunodd yn garedig iawn. 'Gadewch i ni wneud Gogledd Cymru yn gyrchfan gryfach,' meddai.

**Mentrau rhyngwladol.**
Rydym yn defnyddio arbenigedd ac arloesedd o Gymru, ac yn defnyddio Cymru fel maes arbrofi. Rydym yn creu rheswm dros ymweld, yn ogystal ag allforio gwerthoedd Cymru i bedwar ban byd. Gallwn gyflwyno arloesedd Cymru i'r byd.

**Gorau po wyrddaf.**
Ni oedd y gweithredwr morol cyntaf yn y DU i ennill statws y Faner Las. Wrth i ni ryngweithio â'r amgylchedd, rydym yn ei ddiogelu cymaint ag y bo modd. Mae'n ymwneud â'n cymhwysedd, ac ennill ymddiriedaeth pobl. Mae'n bwysig anelu am rywbeth mwy na gyrru cwch yn gyflym. Dyna'r hyn rydym yn ei wneud, yn y bôn: rydym yn anelu at fod mor dda â phosibl ym mhob agwedd ar ein gweithrediad.

# Mentrau mawr.

Afon Menai, Ynys Môn

**Cydweithio tuag at nod cyffredin.**
Andrew Campbell, Cynghrair Twristiaeth Cymru.

"Mae'n hollbwysig i'r sector preifat a'r sector cyhoeddus gysylltu'n effeithiol â'i gilydd. Mae llwyddiant yn dibynnu ar bartneriaethau a chydweithio, felly mae angen i ni feithrin cydberthnasau sy'n gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau. Bydd amcanion unrhyw gynllun blaenoriaethau'n cael eu cyflawni'n well os byddwn yn cydweithio'n agos. Rydym i gyd yn yr un cwch.

Mae angen i ni weithio mewn ffordd fwy gwyrdd ac amgylcheddol effeithlon, ond mae cynaliadwyedd hefyd yn golygu cynnal cymunedau. Mae twristiaeth yn creu swyddi mewn mannau lle nad yw diwydiannau eraill yn gwneud hynny. Mae'r sector hwn yn haeddu cael ei gymryd o ddifrif. Rydym yn gwneud cyfraniad economaidd anferth — £6.2 biliwn bob blwyddyn i economi Cymru — ac mae angen i hynny gael ei gydnabod."



## Meithrin cydberthnasau.

Harlech, Gwynedd





## Gall effaith gymdeithasol gwyliau newid bywydau.

Lowri Jones, Gwersyll yr Urdd, Llangrannog.

**Tyfodd ein gwyliau teulu o n hethos gwreiddiol.**
Yn draddodiadol yn ystod gwyliau'r ysgol, rydym yn cynnig gwersylloedd haf i blant a phobl ifanc, ond roedd yn rhaid i ni chwilio am ffynhonnell incwm arall ar benwythnosau tawelach. Y datblygiad naturiol oedd gwyliau teulu i aelodau'r Urdd, ac erbyn hyn mae llawer o sefydliadau eraill yn manteisio ar y lleoliad yma yn Llangrannog ac yn trefnu eu gwyliau teulu unigryw eu hunain. Mae rhai teuluoedd yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu ymlacio. Mae rhieni a gwarcheidwaid yn gweld eu plant yn magu hyder wrth iddynt gymryd rhan mewn mwy nag 20 o weithgareddau gwahanol.

**Mae tua 600 o deuluoedd yn ymweld â ni bob blwyddyn.**
Y brif flaenoriaeth yw treulio amser gyda'i gilydd fel teulu, yn dysgu sgiliau ac yn gwneud gweithgareddau gwahanol. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n bwysig ein bod yn cynnig gwyliau teulu fforddiadwy.

**Mae n cyfeirio n ôl at werthoedd craidd yr Urdd: dysgu sgiliau newydd, mwynhau profiadau newydd, meithrin cydberthnasau newydd.**
Gallai hyn fod mor syml â chynnig hafan i feithrin cysylltiadau teuluol, creu atgofion hirhoedlog, gan arwain, yn anochel, at fod yn berson gwell a chreu cymunedau cryfach. Mae'n swnio'n eithafol, ond mae'n digwydd.

**Mae r ffaith ein bod mewn lle hardd yn helpu.**
Mae ein lleoliad yn un o drysorau arfordir Bae Ceredigion. Rydym yn gwneud yn siŵr y gall teuluoedd fanteisio ar Lwybr Arfordir Cymru neu dreulio diwrnod ar y traeth. Rydym yn darparu pethau megis bwcedi a rhawiau, blancedi, bws gwennol ac unrhyw beth arall sy'n lleihau costau ychwanegol i'r teuluoedd. Rydym yn ceisio sicrhau y gall pawb fwynhau'r hyn rydym yn ei gynnig.

# Ymlacio... yn ddiogel.

**Rydym yn helpu plant sydd dan anfantais yn gymdeithasol neu'n ariannol.**
Ym mis Awst 2018, gwnaethom lansio Cronfa i Bawb er mwyn rhoi cyfle i blant difreintiedig fwynhau gwyliau haf yn un o'n Canolfannau. Gwnaeth ein llafur ddwyn ffrwyth yn 2019 ac roedd yn anhygoel. Roedd 50 o blant o bob cwr o Gymru yn gallu ymuno â ni am ddim, a gallech weld yr effaith arnynt â ch llygaid eich hunain. Gweld y plant hynny'n newid er gwell oedd y testun balchder mwyaf i mi mewn 15 mlynedd o weithio i'r Urdd. Mae gennym dîm anhygoel o staff. Pan ddywedwn ein bod yn gwneud gwahaniaeth, rydym yn golygu hynny. Mae'n swnio fel ystrydeb, ond mae'n wir.

**Yn aml, rwy n ein gweld fel microcosm o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**
Rydym yn ceisio cael gafael ar fwyd ac ynni o'r ffynonellau agosaf posibl atom. Rydym yn gwneud yr holl bethau bach hynny sy'n helpu'r economi leol. Es i gynhadledd yn ddiweddar lle roedd pobl yn trafod canolfannau llesiant a meddyliais wrthyf fy hun, 'Mae Llangrannog wedi bod yn gwneud hynny ers degawdau.' Nid yw'n dwyn yr enw hwnnw, ond mae'n rhan annatod o bopeth rydym yn ei wneud.

Traeth Llangrannog, Ceredigion

# Ein blaenoriaethau.



Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn, rydym wedi nodi pedair blaenoriaeth allweddol ar gyfer Croeso Cymru:

1

**Cynnyrch a lleoedd gwych**
*Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cynnyrch a digwyddiadau twristiaeth sy'n sicrhau buddiannau lleol i gymunedau yng Nghymru (Bro), ac sydd hefyd yn rhoi Cymru ar lwyfan y byd (Byd).*

Camau gweithredu:

**Prosiectau dan arweiniad Croeso Cymru**
Byddwn yn arwain ar nifer bach o fuddsoddiadau uniongyrchol o'r sector cyhoeddus mewn prosiectau neu ddigwyddiadau sydd â'r potensial i hyrwyddo Cymru'n rhyngwladol. Y prosiect cyntaf i gael ei ystyried a'i gwmpasu yw prosiect i ddatblygu llety gan ddilyn model y 'Paradores' yn Sbaen.

**Buddsoddiad cyfalaf dan arweiniad y diwydiant**
Byddwn yn parhau i gefnogi arloeswyr yn y diwydiant, gan gynnwys defnyddio Cronfa gwerth £50 miliwn Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru, a lansiwyd yn ddiweddar.

**Creu lleoedd mewn ffordd integredig**
Byddwn yn cefnogi'r broses o reoli cyrchfannau ledled Cymru. Byddwn hefyd yn cyflwyno dull strategol o ddatblygu lleoedd, gan sianelu ymdrechion a chyllid tuag at nifer fechan o gyrchfannau: un ym mhob un o'r pedwar rhanbarth twristiaeth o bosibl.

**Digwyddiadau rhyngwladol a chartref**
Byddwn yn sefydlu Digwyddiadau Cymru er mwyn parhau i ddarparu portffolio cytbwys a chynaliadwy o ddigwyddiadau, a thyfu'r sector Digwyddiadau Busnes.

2

**Profiadau eithriadol i ymwelwyr**
*Nid yw cynhyrchion unigol yn ddigon; dylai pob ymwelydd â Chymru gael profiad cadarnhaol, cofiadwy ym mhob atyniad a thrwy gydol eu harhosiad.*

Camau gweithredu:

**Y pethau pwysig**
Byddwn yn lansio cronfa newydd i fuddsoddi yn y seilwaith twristiaeth sylfaenol ledled Cymru.

**Dull newydd o ymdrin â lletygarwch**
Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o symud tuag at system raddio am ddim, a fyddai'n rhoi cymorth i fusnesau er mwyn eu helpu i dyfu.

**Pobl fedrus**
Byddwn yn sefydlu Partneriaeth Sgiliau Twristiaeth ffurfiol ac ystyried ffyrdd amrywiol o godi statws y sector ar gyfer gweithwyr cenedlaethau'r dyfodol.

**Twristiaeth bwyd**
Byddwn yn parhau i weithio i helpu gwella'r arlwy twristiaeth bwyd yng Nghymru.

**Timau cynnyrch**
Byddwn yn atgyfnerthu ein ffocws ar brofiadau o ddiddordeb arbennig, gan greu timau cynnyrch er mwyn cyflwyno cynnyrch a phrofiadau blaenoriaeth yn seiliedig ar ein harlwy craidd.



3

**Brand arloesol i Gymru**
*Byddwn yn parhau i gyflwyno brand beiddgar ac integredig i Gymru, gan fanteisio ar botensial twristiaeth i weithredu fel hyrwyddwr ar gyfer ein gwlad ar y llwyfan byd-eang, gan gyflwyno Cymru i'r byd fel cyrchfan groesawgar, fywiog.*

Camau gweithredu:

**Brand gwlad cryfach**
Byddwn yn parhau i atgyfnerthu brand Cymru Wales, gan weithio rhwng sectorau i hyrwyddo Cymru yn y DU a thu hwnt.

**Marchnata addasol gyda ffocws ar gyfnodau llai prysur**
Byddwn yn hyrwyddo Cymru yn hyderus i ymwelwyr newydd, gan bwysleisio cyfnodau llai prysur a gwerth dros niferoedd.

**Un ymgyrch, dwy flwyddyn thematig**
Byddwn yn lansio ymgyrch newydd fawr i Gymru ar gyfer y 3–5 mlynedd nesaf ac yn cyhoeddi blynyddoedd thematig newydd ar gyfer 2022 a 2024.

**Diwydiant digidol yn gyntaf**
Byddwn yn manteisio ar lwyfannau digidol — gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol — er mwyn hyrwyddo Cymru a datblygu'r diwydiant.

**Canolfan Ragoriaeth Croeso Cymru**
Byddwn yn sefydlu Canolfan Ragoriaeth Croeso Cymru — Canolfan agored o ddigwyddiadau a hyfforddiant i helpu pob un ohonom i gydweithio i hyrwyddo Cymru i'r byd.

4

**Sector cysylltiedig a bywiog**
*Byddwn yn cydnabod a chydlynu'r cyfraniad y gall amrywiaeth eang o bartneriaid ei wneud.*

Camau gweithredu:

**Ymgysylltu'n effeithiol a'r diwydiant a helpu uno llais y sector**
Byddwn yn dod â'r sector preifat at ei gilydd ac yn cysylltu â phartneriaid yn y sector mewn ffyrdd creadigol.

**Data a dealltwriaeth well yn seiliedig ar anghenion y diwydiant**
Byddwn yn rhoi gwybodaeth amserol i'r diwydiant ac yn rhannu canfyddiadau ymchwil â'n rhanddeiliaid yn well.

**Strategaeth a swyddogaeth polisi cryfach**
Byddwn yn gweithio ym mhob rhan o'r Llywodraeth i gyflawni holl fanteision twristiaeth i Gymru a sicrhau bod safbwyntiau'r sector yn cael eu hystyried ar faterion megis Treth Dwristiaeth.


**Croeso Cymru sy'n ystwyth ac yn ymatebol**
Byddwn yn rhoi cyfle i'r sector ddeall sut y mae Croeso Cymru yn gweithio yn well, ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn agos â'r blaenoriaethau newydd hyn.

# Blaenoriaethau masnachol.

Er mwyn sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa fwy cystadleuol yn y dyfodol, byddwn hefyd yn gweithio ar y canlynol:

1

**Llwybrau gwell i'r farchnad**
Rhaglen busnes i fusnes gryfach a fydd yn ei gwneud yn haws i ymwelwyr ddod o hyd i arlwy gorau Cymru a threfnu dod yma.






2

**Profiadau o ddiddordeb arbennig**
Byddwn yn datblygu cynhyrchion a phrofiadau diddordeb arbennig sy'n cefnogi ac yn atgyfnerthu ein cryfderau craidd:

| | | |
|---|---|---|
| Tirweddau naturiol eithriadol. | Diwylliant creadigol. | Antur epic. |
| Cynnyrch penodol | | |
| Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Clawdd Offa a'r Llwybrau Cenedlaethol. Golff. | Twristiaeth Treftadaeth. Ffilm a theledu. | Beicio Mynydd a Seiclo. |
| Twristiaeth Morol a Mordeithiau. | | |

3

**Partneriaethau masnachol**
Mae partneriaethau yn helaethu, yn ehangu ac yn ychwanegu gwerth i'n marchnata. Yn y dyfodol, byddwn yn meithrin llai o bartneriaethau masnachol mwy a gwell â brandiau a gweithredwyr allweddol.

# Blaenoriaethau llesiant.

Dyma ychydig enghreifftiau o'r ffyrdd y bydd ein cynlluniau'n cyflawni llesiant ehangach:

1

**Manteision cymdeithasol a diwylliannol**

**Byddwn yn:**
— Gwneud mwy i gynnal arolygon o breswylwyr lleol er mwyn deall effeithiau twristiaeth yn lleol.
— Hyrwyddo ymdeimlad o le, diwylliant ac iaith yn fwy rhagweithiol.
— Datblygu profiadau ar gyfer marchnadoedd diwylliannol diddordeb arbennig.
— Gwella mynediad at gyfleusterau, a chyflwyno cipolwg cynhwysol ar Gymru.
— Ystyried gŵyl flynyddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau hygyrch i blant a phobl ifanc.

2

**Gwella ein perfformiad amgylcheddol**

**Byddwn yn:**
— Annog trafnidiaeth gynaliadwy drwy seilwaith megis mannau gwefru trydanol.
— Annog busnesau twristiaeth i wella'r ffordd y maent yn rheoli'r amgylchedd drwy raddio.
— Archwilio'r defnydd o 'Ddata Mawr' er mwyn olrhain llifoedd ymwelwyr ar adegau prysur ac mewn ardaloedd penodol.

3

**Cynyddu ein cyfraniad at iechyd**

**Byddwn yn:**
— Sicrhau bod antur a gweithgarwch yn greiddiol i frand Cymru a'n gwaith marchnata.
— Buddsoddi mewn cyfleusterau sy'n gwella arlwy antur Cymru.
— Sicrhau bod modd i amrywiaeth eang o ymwelwyr fanteisio ar gyfleoedd llesiant newydd a'u mwynhau.

# Mesur llwyddiant.

Yn unol â'n huchelgais a'n nodau, ein mesurau o lwyddiant yw:

**Buddiannau i bobl**

— Olrhain boddhad ymwelwyr a phreswylwyr â thwristiaeth, a hyder busnesau.

**Buddiannau economaidd a pherfformiad y diwydiant**

— Twf y sector.
— Twf dosbarthiad tymhorol.
— Twf mewn arenillion fesul ymwelydd.
— Twf yng nghyfraniad y sector at Werth Ychwanegol Gros.

**Buddiannau llesiant**

— Mesurau amgylcheddol.
— Mesurau cymdeithasol a diwylliannol.
— Mesurau iechyd.


# Gweithredu.



**Cyflawni'r cynllun**

**Byddwn yn:**
— Ailstrwythuro'r tîm mewnol.
— Diwygio ein strwythurau llywodraethu.
— Symleiddio ein dull gweithredu o ran cymorth busnes.
— Adolygu darpariaeth ar lefel leol.
— Cyflwyno dulliau newydd o weithio mewn partneriaeth.

Cofrestrwch i gael ein cylchlythyr a dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol i gael mwy o wybodaeth.
@CroesoCymruBus



# Awyr agoreð.

"Mae Cymru'n anhygoel — yr holl fannau gwyrðð a glas syðð yma — ac os na allwch fanteisio arnynt oherwyðð anableðð, mae'n ðrueni mawr. Felly, mae'n bwysig ein boð yn gwneuð y mannau hynny'n hygyrch i bawb. Mae syrffio'n ymarfer corff gwych, ac mae wir yn eich cysylltu â'r byð o'ch cwmpas a'r amgylcheðð. Mae manteision mwynhau'r foment a chanolbwyntio ar y presennol, yn ogystal â boð yn yr awyr agoreð a gwneuð ymarfer corff ar yr un pryð, yn anhygoel.

Ryðym weði ðatblygu technegau yng Nghymru sy'n ðoð yn rhan o'r safon fyð-eang. Mae ein cymuneð ein hunain yn elwa hefyð. Mae ein gwirfoððolwyr yn cael cyfle i weithio gyða phobl yn eu cymuneð, gan ei gwneuð yn lle gwell."

Rest Bay, Porthcawl



**Gwnewch bethau da a bydd y byd yn eich gwerthfawrogi.**
James Lynch, Fforest.

**Dull gweithredu yw 'naws am le', nid slogan.** Rydym yn ceisio ei ymgorffori yn yr hyn a wnawn. Mae ein staff yn gyfrifol am lawer o hynny: llawer o bobl ifanc o Gymru sy'n mwynhau gweithio i ni, ac yn rhannu'r mwynhad a'r pleser hwnnw â'n gwesteion.

**Mae r ffordd rwy n rhedeg Fforest yn seiliedig ar deithio i leoedd eraill a gweld sut maent yn ymhyfrydu yn eu hardal leol.** Mae Seland Newydd yn enghraifft wych. Aethom ar grwydr am chwe mis pan oedd ein bechgyn yn fach, ac roedd y Selandwyr yn groesawgar iawn ac roedd ganddynt gariad amlwg at eu mamwlad. Mae hynny'n datblygu yma hefyd. Mae'n ymwneud â'r ffordd rydych yn ei fynegi. Mae ymfalchïo yn eich gwerth eich hun wrth i chi groesawu pobl eraill yn hyfryd.

**Mae r hyn sydd yma wedi synnu ymwelwyr erioed.** Yn ddiweddar, yr ansawdd sy'n eu synnu. Rydym yn dal i ymhyfrydu yn yr awyr agored, ond rydym yn cynnig ansawdd sy'n gwella drwy'r amser. Mae hynny'n llwyddiannus i ni'n fasnachol. Mae sector mwy cyfoethog o dwristiaeth yn dod i Gymru nawr ac mae'r bobl hynny am gael pethau o ansawdd da iawn. Nid ydynt am gael rhywbeth 'rhad ond gweddol', ond maent yn fwy na pharod i gael rhywbeth 'drud ond gwych'.

# Da + Da = Gwell

**Peidiwch â dibrisio eich hun.** Os oes gennych rywbeth unigryw, canwch ei glodydd — yna codwch dâl amdano. Nod marchnata yw denu pobl yma yn y lle cyntaf. Ar ôl iddynt gyrraedd, ni fydd darbwyllo pobl i dalu am bethau o ansawdd yn broblem.

**Mae Aberteifi'n gasgliad o lawer o bethau da.** Pan fydd yr arlwy'n tyfu i bwynt penodol, dyna'r pryd y byddwch yn gynaliadwy. Os oes gan unrhyw dref heriau o ran daearyddiaeth, economi a thymoroldeb, mae'n rhaid i ddigon o bobl wneud y pethau iawn ar yr adeg iawn. Gorau po fwyaf o bobl sy'n gwneud pethau da, dyna fy marn erioed. Da + da = gwell. Nid yw byth yn gystadleuaeth.

**Mae Ffordd Cymru yn teithio'n ddwfn i galon y genedl.**
Alwyn Griffith, Celticos.

"Mae ein cwsmeriaid am gael blas ar Gymru go iawn — ein hiaith, ein diwylliant, ein treftadaeth a'n tirwedd. Maent am gael eu tywys i rai o gorneli cudd ein cenedl, yn ogystal â'r mannau mwy eiconig, a dyma wir ystyr Ffordd Cymru. Gall busnesau fel ni sicrhau manteision anferth o'r cyfle marchnata rhyngwladol y mae Ffordd Cymru yn ei gynnig."

# Cymru go iawn.



Pen-y-Gogarth, Llandudno

## Gall cynhyrchion eiconig ysgogi twristiaeth busnes a hamdden: mae pawb ar eu hennill.

Ian Edwards, ICC Cymru.

**Mae ICC Cymru yn newid radical.**
Mae Cymru yn awr ar flaen y gad, yn y DU ac yn rhyngwladol, ym maes Digwyddiadau Busnes. Ond aethom gam ymhellach na dweud, 'Dyma beth rydym am ei ddylunio a'i adeiladu.' Aethom at y farchnad a gofyn i'r bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn: 'Dywedwch wrthym beth yw'r gorau ar y farchnad, dywedwch wrthym pam, a helpwch ni.' A dyna beth a wnaethom ei adeiladu: canolfan gynadledda anhygoel sydd wir o'r radd flaenaf.

**Os daw 2,500 o bobl i ddigwyddiad yn ICC Cymru, bydd angen iddynt gael rhywle i fwyta, yfed ac aros ynddo.**
Ni all Celtic Manor gynnig hynny i gyd — mae ei lefelau deiliadaeth eisoes yn 90 y cant. Felly, mae'n elwa ar gael bariau, gwestai, bwytai, tacsis a choetsys lleol. Mae'r holl wariant ategol hwnnw yn gwneud gwahaniaeth anferth.

**Ar y cyfan, mae ymwelydd busnes yn gwario deirgwaith cymaint ag ymwelydd hamdden.**
Ond bydd mwy na 60 y cant o'r bobl sy'n dod i ddigwyddiad yn dychwelyd gyda'u teulu. Mae pawb ar eu hennill ac mae'n gyfle anferth i ni barhau i hybu'r economi ymwelwyr, o ran twristiaeth busnes a hamdden.

**Yn ystod y pythefnos cyntaf wedi i ni agor, cawsom nifer o ddigwyddiadau mawr.**
Yr effaith leol uniongyrchol oedd tua £4.8 miliwn, sy'n wych, ond yr hyn sy'n digwydd nesaf yw'r peth pwysig. Mae pobl sy'n dod i gynadleddau'n bobl mewn uwch-swyddi, ac mae hynny'n golygu eu bod yn gwneud penderfyniadau. Maent yn sylweddoli pa mor hygyrch yw Cymru, a pha mor agos ydyw i weddill poblogaeth y DU. Gallent agor swyddfeydd yma, neu ddenu digwyddiadau eraill.

**Pennu nodau beiddgar yw'r peth pwysig.**
Pan wnaethom gynnig am gael cynnal Cwpan Ryder 2010 i ddechrau, y tebygolrwydd y byddem yn ennill oedd un y cant. Fodd bynnag, gwnaethom gydweithio â Llywodraeth Cymru a llwyddo gyda'n gilydd i gynnal Cwpan Ryder anhygoel. Gwnaethom lwyddo eto gydag Uwchgynhadledd NATO Cymru 2014. Gall y ganolfan gynadledda gynnal digwyddiadau mawr fel y rhain bob blwyddyn.




# Ar flaen y gad.

ICC Cymru, Casnewydd

**Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020–2025. Eich canllaw byr.**
Cyhoeddir gan Croeso Cymru, is-adran Twristiaeth a Marchnata Llywodraeth Cymru 2020.
ISBN Print: 978-1-83933-789-5
ISBN Digidol: 978-1-83933-797-0

Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, Canolfan QED, Y Brif Rodfa,
Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Trefforest, Pontypridd CF37 5YR.

Ffotograffiaeth: Hawlfraint y Goron (2020) Croeso Cymru. Llun ICC Cymru © ICC Cymru.
Dylunio: Departures®. Golygydd: Charles Williams.
WG39702 © Hawlfraint y Goron 2020, Llywodraeth Cymru OGL
Llun y clawr: Seiclwyr, Blaenau Ffestiniog.